

# Mwy o ddychmygion

“... plant wedi eu geni nid o waed nac o ewylllys cnawd nac o ewylllys gwŵr, ond o Dduw.” (adn. 13)

## Beth am ddarllen Ioan 1:1–18 ac yna myfyrio

Ffordd arall y mae pobl yn camddeall dinasyddiaeth nefol yw trwy gredu y gellir ei hennill ar sail ffydd rhieni. Mae'n beth bendigedig iawn i gael rhieni Cristnogol. Rwyf yn diolch i Dduw fod fy nau riant yn Gristnogion, ac, fel Timotheus, er yn blentyn, roeddwn yn adnabod yr Ysgrythurau. Fe all rhieni duwiol gynorthwyo mewn sawl ffordd. Maent yn gallu ein cyflwyno i'r Arglwydd, yn gallu ein bedyddio. Gallant ddysgu i ni egwyddorion y ffydd, gallant ein dwyn i glywed pobl Dduw yn addoli yn ei Eglwys, ond mae un peth na allant ei wneud – ni allant sicrhau lle i ni yn y nefoedd.

Roedd gan Hoffni a Phinees dad da yn Eli, ond fe ddygwyd gwarth ar genedl Israel trwy eu hymarweddiad. Roedd gan Absalom hefyd dad da, ond fe dorrodd galon ei dad ac fe fu farw yn fradychwr. Ni allaf gyfrif sawl gwaith y mae pobl wedi awgrymu i mi fod ffydd eu rhieni mewn rhyw ffordd yn sicrhau'r nefoedd iddyn nhw. Yr wyf yn dyst i glywed llawer yn dweud y byddai Duw yn eu derbyn ar sail y ffaith fod eu rhieni, a gweithredoedd da eu rhieni, yn ateb drostynt. Breuddwyd yw hyn.

Syniad anghywir arall a goleddir gan nifer fawr o bobl yw y byddant yn etifeddu'r ddinasyddiaeth trwy gyfrannu i amryw o achosion da ac achosion elusennol. Nid rhadlonrwydd yw y ffordd i gyrraedd y nefoedd. Iesu yw y ffordd. Pan oedd yn blentyn, ysgrifennodd fy nhad ar ddalen flaen un o fy Meibla: “Mae arian, yn gyffredinol, yn medru darparu popeth ond llawenydd, ac yn medru prynu tocyn i bob man ar wahân i'r nefoedd.” Gall arian brynu llawer o bethau i chi yma ar y ddaear, ond ni all brynu lle ichi yn y nefoedd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 7:1–22; Rhuf. 3:20; Gal. 2:16; Eff. 2:8–9

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod y gyfraith yn gysgod?
2. Beth yw ateb Duw?

## Gweddi

O Dad, mae'n drist i weld cynifer o bobl yn amharod i fwrw eu beichiau arnat ti; cymaint o bobl sydd yn ceisio cyrraedd y nefoedd drwy eu hymdrechion eu hunain. Diolch mai ond ymddiried ynot ti sydd ei angen. Datguddia dy hun i'r bobl hyn ac achub nhw. Clyw fy ngweddi. Yn enw Iesu Grist. Amen.